Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad rhanbarthol ar raglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ yng Nghanol De Cymru

## Dyddiad yr ymweliad monitro: Ionawr-Chwefror 2023

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/y cyhoeddiad penodol.**

## Ynglŷn â rhanbarth Canol De Cymru

Ymwelodd arolygwyr â'r darparwyr arweiniol a'u partneriaid (is-gontractwyr) i adolygu cyflwyno rhaglen Twf Swyddi Cymru+ ym mlwyddyn gyntaf contract Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad rhanbarthol hwn yn rhoi crynodeb o adborth o'r ymweliad hwn.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- arsylwi cyfranogwyr mewn sesiynau ac yn y gweithle
- siarad â chyfranogwyr ac adolygu eu cynlluniau dysgu unigol a dogfennau allweddol
- arsylwi tiwtoriaid a chyfarfod ag arweinwyr ar draws y sefydliadau
- cyfarfod â staff allweddol o Cymru'n Gweithio i adolygu'r broses atgyfeirio
- adolygu ansawdd a phriodoldeb yr adeiladau a'r adnoddau ar gyfer y rhaglen

Yn rhanbarth Canol De Cymru, mae dau ddarparwr arweiniol a chwe phartner sy'n is-gontractwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno rhaglenni ar draws ardaloedd awdurdodau lleol Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Ymwelom â chyfranogwyr ar y rhaglen mewn lleoliadau yng Nghaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Aberdâr, Pontypridd, Merthyr Tudful a Thonypandy.

Dyma'r darparwyr arweiniol a'u partneriaid sy'n is-gontractwyr:

ACT Ltd – darparwr arweiniol

- Coleg Penybont
- Llamau
- MPCT
- People Plus
- Tydfil Training

ITEC Training Solutions– darparwr arweiniol

- Whithead Ross

Adeg ein hymweliad, roedd 339 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar elfen ymgysylltiad y rhaglen, a 328 wedi cofrestru ar elfen datblygiad y rhaglen. Roedd 7 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar yr elfen cyflogaeth. Roedd oddeutu 674 o gyfranogwyr ar y rhaglen yn y rhanbarth adeg ein hymweliad.

## Prif ganfyddiadau

Ar draws y rhanbarth, mae'r ddau ddarparwr arweiniol yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. Maent yn rhannu arfer dda ac ystod eang o wybodaeth a systemau cymorth. Hefyd, maent yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y rhanbarth. Mae'r gweithio hwn mewn partneriaeth yn datblygu'n dda wrth ddarparu cymorth effeithiol i gyfranogwyr. Mae ganddynt hyfforddiant ag adnoddau da mewn lleoliadau allweddol sydd â mynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r ddau ddarparwr arweiniol ac isgontractwyr yn rhoi ffocws mawr ar fodloni anghenion cymorth cyfranogwyr. Maent yn cynnig cymorth cofleidiol mewnol ac allanol cynhwysfawr ar ffurf gynghorwyr byd gwaith, cynghorwyr recriwtio ac ymgysylltu, hyfforddwyr datblygu busnes, cwnselwyr, a hyfforddwyr dilyniant.

Mae'r darparwyr arweiniol yn cefnogi'r isgontractwyr yn dda. Mae'r isgontractwyr yn derbyn ystod eang o wybodaeth fanwl yn gysylltiedig â'r rhaglen, ac mae'r darparwyr arweiniol yn eu cynorthwyo i reoli data. Mae darparwyr arweiniol yn cynnwys staff isgontractwyr mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ac yn rhannu arfer dda ar draws y ddarpariaeth.

Yn amlwg, mae'r buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol ar gyfer tiwtoriaid ac aseswyr wedi bod yn fuddiol, ac mae wedi arwain at welliant amlwg yn ansawdd y cyflwyno. Hefyd, mae'r cyfle i fyfyrio ar y rhaglen a chanolbwyntio ar anghenion y dysgwyr wedi arwain at ddulliau gweithredu newydd a chyflwyno offer ar-lein priodol ac adnoddau eraill sy'n cefnogi dysgu.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn wybodus ac yn brofiadol, ac maent yn rheoli sesiynau'n dda. Maent yn frwdfrydig ac yn gefnogol, ac yn teilwra'r gwaith yn ôl anghenion dysgwyr unigol. Yn y sesiynau a arsylwyd, mae'r addysgu o ansawdd uchel. Mae'n fywiog, yn rhyngweithiol ac mae'r testunau'n berthnasol i lefel ac anghenion y garfan cyfranogwyr.

Mae'r tiwtoriaid yn defnyddio ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel, a cheir cydbwysedd da rhwng addysgu i gefnogi datblygiad personol, a darparu'r wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen ar gyfer llwybr gyrfa dewisedig pob cyfranogwr. Lle nad yw cyfranogwr wedi penderfynu pa lwybr i'w ddilyn, mae staff yn cynnig cyngor priodol, sesiynau blasu a, lle bo modd, blas ar waith. Mae tiwtoriaid a chynorthwywyr cymorth yn rheoli trafodaethau ar ystod eang o destunau yn dda, ac maent yn sensitif i anghenion cyfranogwyr unigol mewn grŵp. Mae'r staff hyn yn ennyn diddordeb cyfranogwyr mewn testunau a newyddion cyfoes, gan ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a herio'u barnau pan fo angen.

Mae gan bron yr holl gyfranogwyr anghenion lles sylweddol. Er bod eu lefelau academaidd a medrau yn amrywio'n fawr, gydag ychydig ohonynt wedi cyflawni cymwysterau lefel uwch, mae'r rhan fwyaf ar yr elfen ymgysylltiad a llawer ar yr elfen datblygiad, yn dal ar gychwyn eu taith cyflogadwyedd.

Mae gan ddarparwyr systemau clir i adnabod anghenion pan fydd cyfranogwr yn ymuno â rhaglen gan fod lefel ac ansawdd gwybodaeth a rennir gan asiantaethau eraill yn amrywiol yn aml o ran graddfa'r manylder a ddarperir. Mae gan yr holl

ddysgwyr gynlluniau dysgu unigol (CDUau) wedi eu teilwra, ac mae tiwtoriaid yn ymwybodol iawn o anghenion cymorth unigol, ar gyfer datblygiad personol ac ar gyfer caffael medrau. Mae staff yn darparu cymorth priodol neu'n atgyfeirio at ystod o arbenigwyr o fewn y darparwr a thrwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol yn yr ardal, fel gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth i deuluoedd. Ceir darpariaeth gref ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd, ac mae'r ddau wedi'u rhoi mewn cyd-destun perthnasol o fewn sesiynau a thrwy gymorth unigol gan diwtoriaid Sgiliau Hanfodol Cymru.

Mae darparwyr wedi buddsoddi mewn adnoddau defnyddiol i gefnogi lles cyfranogwyr, ac felly maent yn gallu monitro'n aml sut maen nhw'n teimlo, eu datblygiad personol a'u cynnydd mewn medrau.

Nid oes gan lawer o gyfranogwyr y medrau cymdeithasol sy'n hanfodol ar gyfer cyflogaeth. Mae darparwyr yn cynnig ystod o weithgareddau cyfoethogi difyr sy'n meithrin ymdeimlad o gymuned ar gyfer cyfranogwyr, lle gallant ryngweithio'n anffurfiol â staff a'u cyfoedion. Mae'r rhain yn weithgareddau buddiol i gyfranogwyr, ac mae llawer ohonynt yn adrodd eu bod wedi mynd i deimlo'n ynysig ac nad oedd ganddynt unrhyw ffrindiau cyn ymuno â'r rhaglen. Trwy ddarparu prydau bwyd, mae darparwyr yn aml yn gallu adnabod yn gynnil y rheiny a allai fod yn wynebu heriau ariannol o fewn eu teuluoedd.

Yn aml, mae amgylcheddau dysgu yn fannau bywiog sy'n groesawgar a lle mae pobl ifanc yn teimlo'n esmwyth ac yn ddiogel. Gellir cael ystod eang o wasanaethau cymorth yn y canolfannau yn aml, ac mae hyn yn osgoi oedi o ran atgyfeirio cyfranogwyr pan fydd angen cymorth arnynt.

Mae darparwyr yn sicrhau ystod o gyfleoedd gwaith ar gyfer cyfranogwyr. Mewn meysydd medrau traddodiadol y mae'r rhain yn bennaf, ond mae darparwyr yn gwneud eu gorau i ddarparu ar gyfer uchelgeisiau unigol, fel gweithio mewn swyddfa cyfreithiwr. Mae darparwyr yn ceisio cyfleoedd lleoliadau newydd i ddysgwyr yn gyson. Fodd bynnag, ceir anawsterau penodol, er enghraifft ym meysydd adeiladu a gofal cymdeithasol oedolion lle mae prinderau medrau. Yn yr achosion gorau, mae cyfranogwyr yn cael lleoliadau gwaith sy'n rhoi profiadau cadarn iddynt wrth ddatblygu'u medrau galwedigaethol yn ogystal â gwella'u hyder a'u hunan-barch yn sylweddol. Mewn un enghraifft, mae cyfranogwr wedi gwneud cynnydd arbennig o gryf, ac mae'n symud ymlaen at raglen prentisiaeth.

Mae cyfranogwyr yn cydweithredu, maent yn ymddwyn yn dda ac yn rhyngweithio mewn modd cyfeillgar a chefnogol â'i gilydd, ar ôl cyfnodau ymgartrefu cychwynnol. Mae'r staff yn dra chymwys a phrofiadol i ddelio ag ymddygiad heriol mewn modd cefnogol. Bylchog yw presenoldeb ar draws y rhanbarth, yn enwedig ar gyfer sesiynau bore, ond mae strategaethau ar waith gan ddarparwyr sy'n cynnwys amserlen lai a threfniadau dychwelyd yn raddol i fynychu'n amser llawn ar gyfer cyfranogwyr sy'n cael anhawster. Mae darparwyr yn gwneud popeth y gallant i annog presenoldeb llawn.

Mae darparwyr yn ymgynghori â chyfranogwyr yn rheolaidd ac yn gweithredu ar awgrymiadau perthnasol. Mae bron yr holl gyfranogwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r rhaglen, y cymorth a gânt, a'r effaith y mae'n ei chael ar eu bywydau.

Mewn rhai ardaloedd o’r rhanbarth, mae darparwyr yn dal i gael anhawster cael gafael ar wybodaeth gefndir berthnasol am gyfranogwyr, gan gynnwys eu cyrhaeddiad blaenorol. Mewn rhai ardaloedd cyngor, nid oes mynediad ganddynt at gofrestrau pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu baneli lle caiff darpar gyfranogwyr eu trafod. Priodolwyd hyn i effeithiau’r rheolau GDPR newydd, neu’r dehongliad lleol ohonynt. Mae darparwyr yn gweithio’n dda gyda chydlynwyr ymgysylltu a dilyniant; fodd bynnag, mae’r niferoedd a atgyfeiriwyd at y ddarpariaeth gan Cymru’n Gweithio yn is na’r disgwyl. Gwneir mwy o hunanatgyfeiriadau at y system nag atgyfeiriadau gan Cymru’n Gweithio. Mae darparwyr yn defnyddio ffyrdd arloesol i hysbysebu’r rhaglen, gan gynnwys trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy’n boblogaidd ac yn hygyrch i bobl ifanc.

Mae rheolwyr yn defnyddio data’n dda i ddadansoddi materion a rhoi mesurau ar waith i ysgogi gwelliant lle mae ei angen. Er enghraifft, maent yn monitro’r niferoedd ar y rhaglen o grwpiau ethnig lleiafrifol, ac maent wedi cyflwyno gweithwyr allweddol i gysylltu â chymunedau. Mae’r darparwyr yn annog defnyddio’r Gymraeg ac mae ganddynt niferoedd cynyddol o diwtoriaid ac aseswyr sy’n siarad Cymraeg. Mae canran y cyfranogwyr yn y rhanbarth sy’n dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn isel iawn. Mae’r defnydd o’r Gymraeg fel iaith addysg a hyfforddiant yn y rhanbarth yn parhau’n her.

## Argymhellion

Dylai'r darparwyr arweiniol, Cymru'n Gweithio a phartneriaid yn y rhanbarth:

A1 Ddatblygu protocolau a gweithdrefnau rhannu gwybodaeth ar draws darparwyr ac asiantau atgyfeirio, gan gynnwys cydlynwyr ymgysylltu a dilyniant, er mwyn galluogi targedu a monitro atgyfeiriadau yn well at y rhaglen, yn enwedig i gynorthwyo'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg a hyfforddiant, neu sydd â rhwystrau sylweddol rhag dysgu

A2 Gweithio gyda'i gilydd gyda'r holl asiantau perthnasol i ddatblygu ystod o leoliadau gwaith sydd ar gael i gyfranogwyr ar y rhaglen

# Atodiad: Ynglŷn â Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+

Mae rhaglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen gymorth hyfforddiant, datblygu a chyflogadwyedd unigoledig ar gyfer y rhai 16-18 oed sy'n byw yng Nghymru yr aseswyd nad ydynt mewn addysg amser llawn, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ei nod yw rhoi'r medrau, cymwysterau a phrofiad i bobl ifanc i gael swydd neu hyfforddiant pellach. Mae'n rhaglen hyblyg sydd wedi'i chynllunio o amgylch yr unigolyn ifanc. Amcanion allweddol y rhaglen yw lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET a chynorthwyo pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial.

Mae Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen Llywodraeth Cymru a gynhwyswyd yn y **Gwarant i Bobl Ifanc** (cynnig o gymorth wedi'i warantu i'r rhai o dan 25 oed yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu fynd yn hynangyflogedig).

O Ebrill 2022 – Mawrth 2026, mae Llywodraeth Cymru wedi contractio rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r rhaglen hon ar draws pedair ardal ranbarthol, gogledd Cymru, de orllewin a chanolbarth Cymru, canol de Cymru a de ddwyrain Cymru. Mae pob rhanbarth yn cynnwys darparwyr contractwyr arweiniol sy'n gweithio gyda phartneriaid isgontractwyr i ddarparu rhaglen integredig o ddysgu a/neu datblygu.

Mae cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio pobl ifanc at ddarparwyr y rhaglen ac yn darparu asesiad cychwynnol o'r cymorth sydd ei angen, gan nodi elfennau priodol y rhaglen:

**Ymgysylltiad** – Mae'r elfen hon yn helpu pobl ifanc i benderfynu pa lwybr gyrfa yr hoffent ei ddilyn.

**Datblygiad** – Mae'r elfen hon yn darparu cymorth neu raglenni sy'n cynnig cymwysterau i helpu'r unigolyn ifanc i symud ymlaen at astudio pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Cyflogaeth** – Mae'r elfen hon yn darparu lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ifanc.

Bydd pobl ifanc ar y rhaglen, y cyfeirir atynt fel cyfranogwyr, yn cael cynllun dysgu unigol (CDU). Caiff y cynllun hwn ei ddatblygu a'i gyflwyno gan ddarparwyr a fydd yn eu cynorthwyo i gaffael y medrau, cymwysterau a phrofiad i symud ymlaen at ddysgu ar lefel uwch, cyflogaeth (gan gynnwys hunangyflogaeth) neu brentisiaeth.

Disgwylir i'r darparwyr arweiniol ddyfeisio a darparu cymorth unigoledig hyblyg a chreadigol sy'n cynnwys ystod eang o weithgarwch - y tu hwnt i hyfforddiant a datblygu medrau. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddefnyddio lleoliadau gwaith cyflogwyr, treialon gwaith, prosiectau cymunedol, gwaith gwirfoddol, cyfleoedd dysgu mewn canolfan a chyflogaeth â chymhorthdal cyflog.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am fanyleb y rhaglen ar wefan Llywodraeth Cymru:

Manyleb rhaglen Twf Swyddi Cymru+ | LLYW.CYMRU